***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1313

## Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 3

### DYLETSWYDDAU ASIANTAETH FABWYSIADU OS YW'R ASIANTAETH YN YSTYRIED MABWYSIADU AR GYFER PLENTYN

**Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth ar gyfer y plentyn a chanfod ei ddymuniadau a'i deimladau.**

**13.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ac yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn—

(a) darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer y plentyn;

(b) esbonio i'r plentyn mewn modd priodol y weithdrefn ynglyn â'i fabwysiadu, a goblygiadau cyfreithiol ei fabwysiadu, a rhoi'r wybodaeth ysgrifenedig briodol i'r plentyn ynglyn â'r materion hyn; ac

(c) canfod dymuniadau a theimladau'r plentyn o ran—

(i) posibilrwydd lleoliad gyda theulu newydd a'i fabwysiadu;

(ii) ei fagwraeth grefyddol a diwylliannol; a

(iii) cyswllt â'i riant, ei warcheidwad, perthynas neu berson arwyddocaol arall.